RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 19 Rhagfyr 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd G Hughes |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd S Powell |
| Y Cynghorydd R Yeo | Y Cynghorydd D Williams |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cynghorydd R Bevan    Y Cynghorydd G Thomas

**159 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto a W. Owen.

**160 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**161 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**162 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n

anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**163 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2019 yn rhai cywir.

**164 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**165 RHIF Y CAIS: 19/1168**

**Ffenestri 'dormer' blaen a chefn ac estyniad unllawr, 25 Underhill Drive, Ton-teg, Pontypridd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr M Evans (Gwrthwynebydd). Cafodd e bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Amlinellodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Hooper, yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, roedd yr Aelodau o'r farn i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr, Ffyniant a Datblygu, oherwydd yr effaith ormesol y byddai'r cynllun 'dormer' arfaethedig yn ei gael ar yr eiddo cyfagos. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

(**Nodwch:** Doedd cynnig i ohirio trafod y cais i ganiatáu i'r ymgeisydd ailystyried maint y cynllun 'dormer' ddim yn llwyddiannus)

**166 RHIF Y CAIS: 19/1084**

**Annedd arfaethedig, tir ger 2 Chepstow Road, Cwm-parc, Treorci.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**167 RHIF Y CAIS: 19/1192**

**Codi tri chwrs gwifren wib (4 llinell), gosod sylfaen galed, creu heolydd mynediad mewnol a llwybrau i gerddwyr, lleoliad dros dro cabanau a**

**defnyddio tir ar gyfer parcio ceir, tir ar Fynydd y Rhigos a safle hen Lofa'r Tŵr, Heol y Rhigos, Hirwaun, Aberdâr.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas am y cais gan gynnig ei gefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig.

Amlinellodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi gynnwys dau lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd; roedd y cyntaf gan breswylydd lleol yn gwrthwynebu'r cynnig a'r ail yn dod oddi wrth sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn manylu ar bryderon sylweddol mewn perthynas â'r cynnig uchod ond a gynigiodd nifer o Amodau i leddfu'r pryderon hynny.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor gan argymell i gael gwared ar Amodau 7 a 5, yr oedd yr ymgeisydd wedi rhoi sylw iddyn nhw, pe bai'r Aelodau'n bwriadu cymeradwyo'r cais.

Dywedodd y Pennaeth Datblygu a Buddsoddi Mawr y byddai modd cychwyn, yn ôl yr wybodaeth ddiweddaraf, ar y safle nawr yng nghanol mis Chwefror (ac nid yng nghanol mis Ionawr fel y soniwyd yn flaenorol) er mwyn osgoi cael effaith ar y safleoedd nythu ar gyfer yr Hebog Tramor. Yng ngoleuni'r mis ychwanegol, roedd yr ymgeisydd yn ceisio cwrdd â gofynion rhai o'r amodau a gafodd eu hargymell cyn cyhoeddi'r caniatâd, er mwyn gallu cychwyn.

Gofynnodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi am gymeradwyaeth y Pwyllgor i'r Pennaeth Cynllunio, o dan awdurdod dirprwyedig, i barhau i wneud unrhyw fân ddiwygiadau i Amodau (gan gynnwys eu dileu pe bai'r ymgeisydd gyflwyno'r manylion gofynnol cyn i'r cysyniad) os bydd angen. Y gobaith hefyd oedd y byddai modd dod i gytundeb â Chyfoeth Naturiol Cymru, ond teimlwyd bod digon o wybodaeth eisoes wedi'i chyflwyno ac nad oedd angen cytundeb â CNC er mwyn cyhoeddi'r caniatâd.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu yn amodol ar ddileu manylion ynglŷn â'r Amodau uchod; a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Cynllunio wneud unrhyw fân ddiwygiadau i Amodau lle bo angen.

**168 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 25 Tachwedd, 2019 a 6 Rhagfyr, 2019.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.00 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**